

Adroddiad Blynyddol 2007 ar Gydraddoldeb Anabledd **Adroddiad i'r Cyngor ar y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd – Rhagfyr 2007**

1. Y Cyd-destun	2
2. Dangos Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Gweithredol	3
Meysydd creiddiol i'w gwella	3
• Eitem 1 – Mynediad a'r amgylchedd adeiledig.....	3
• Eitem 2 – Cyfathrebu	4
• Eitem 3 – Hyfforddi	5
• Eitem 4 – Darparu'r gwasanaeth	5
• Eitem 5 – Recriwtio a chadw staff a myfyrwyr.....	6
• Eitem 6 – Cyfranogi democrataidd	7
Gweithgareddau eraill	7
3. Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd.....	7
• Cysylltiadau Pellach ynghylch Cynorthwyo Anabledd.....	7
• Cymorth Iaith a Dysgu	8
• Digwyddiadau Rhwydweithio	8
4. Monitro Anabledd	9
• Monitro'r Staff	9
• Monitro'r Myfyrwyr	10
• Cymaryddion demograffig.....	11
5. Casgliadau a'r Ymrwymiad i Gydraddoldeb Anabledd	11

Atodiad 1 – Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu

Adroddiad Blynyddol 2007 ar Gydraddoldeb Anabledd

1. Y Cyd-destun

- i) Yr adroddiad hwn yw'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd i'w gyflwyno i'r Cyngor yn sgil mabwysiadu Cynllun, a Chynllun Gweithredu, Prifysgol Aberystwyth ar Gydraddoldeb Anabledd, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2006. Mae'n asesu effaith y Polisi a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y 12 mis blaenorol, fel rhan o ddyletswyddau'r Brifysgol o dan **Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005**.
- ii) Diben y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (CCA) a'r Cynllun Gweithredu tair-blynedd oedd helpu a chydategu Polisi presennol Prifysgol Aberystwyth ar Gyfle Cyfartal ac Amrywiaeth mewn perthynas ag anghydraddoldebau anableddau a bodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005). Mae'r Ddeddf, sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl yn nhermau mynediad i gyflogaeth a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, yn cynnwys yn ei Dyletswydd Gyffredinol y gofyniad i gyrrff cyhoeddus:
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau anabl a phersonau eraill;
 - dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
 - dileu aflonyddu ar bersonau anabl ynglŷn â'u hanableddau;
 - hyrwyddo agweddau cadarnhaol at bersonau anabl;
 - annog personau anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
- iii) Mae Cod Ymarfer Statudol y Comisiwn Hawliau Anabledd (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn hyn) ynglŷn â'r 'Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd' yn argymhell y dylai'r adroddiad blynyddol wneud hyn:
 - monitro a dangos cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r CCA, gan gynnwys cynnydd o ran dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a chyflawni targedau;
 - dangos ffrwyth casglu gwybodaeth ar hyd y flwyddyn;
 - dangos sut y bydd yr CCA yn dal i ddatblygu;
 - disgrifio sut y caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio wrth weithredu ymhellach;
 - dangos ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb anabledd.
- iv) Mae'r adroddiad ar yr CCA wedi'i lunio gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb, gan ymgynghori ag amrywiol Swyddogion y Brifysgol a Chadeirydd/aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth. Mae'n crynhoi cynnydd yr CCA a'r cynllun gweithredu tair-blynedd. Mae ef hefyd yn cynnwys gweithgareddau eraill sydd wedi'u rhoi ar waith ers i'r cynllun gael ei lunio.
- v) Oherwydd amseriad cyfarfod Cyngor y Brifysgol, fe gyflwynir yr adroddiad hwn i'w fabwysiadu gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2008 ac fe drefnir iddo fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel dogfen gyhoeddus drwy'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth yn <http://www.aber.ac.uk/human-resources/cy/equal-ops/> neu drwy'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol. I gael yr adroddiad mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn opp@aber.ac.uk neu (01970) 62 8598.
- vi) Mae'r CCA yn rhan o agenda llawn a chadarnhaol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb drwy arddel ymagwedd gynhwysol. Mae'r gwaith penodol ar gydraddoldeb anabledd yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Brifysgol ac yn gymorth wrth ymgorffori egwyddorion ehangach cydraddoldeb.

Crynodeb: Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Gydraddoldeb Anabledd sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.

2. Dangos Cynnydd yr CCA a'r Cynllun Gweithredol

- vii) Rhan o'r llunio cychwynnol ar yr CCA oedd proses, a gynhaliwyd dros gyfnod o flwyddyn, o ymgynghori â'r Staff, y Myfyrwyr a Rhanddeiliaid eraill i sicrhau y câi anghenion pobl anabl eu cymryd i ystyriaeth. Bu i'r broses honno hefyd hwyluso dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfle cyfartal i staff anabl, myfyrwyr anabl a defnyddwyr eraill ar ei wasanaethau. Cyhoeddwyd yr CCA ar wefan y Brifysgol ym mis Rhagfyr 2006 a'i hyrwyddo drwy'r gwasanaeth e-bost wythnosol i'r staff a'r myfyrwyr. Hyrwyddir y cynllun hefyd drwy gyfrwng y rhaglen e-ddysgu orfodol ar amrywiaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r holl staff ar hyn o bryd.
- viii) Diben y cynllun oedd helpu'r Brifysgol i sicrhau gwelliannau mewn chwe maes creiddiol, sef y fframwaith y datblygwyd Cynlluniau Gweithredu'r Brifysgol hon arno. Mae'r eitemau isod yn crynhoi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd hynny, ac fe'u dangosir hwy – ynghyd â sylwadau diweddar – yn y Cynllun Gweithredu (Atodiad A).
- ix) **Meysydd creiddiol i'w gwella:**

a) Eitem 1 – Tasgau 4 a-c y Cynllun Gweithredu

Mynediad i adeiladau, a'r amgylchedd adeiledig: (mynediad yn adeiladau'r Brifysgol a rhyngddynt).

Dyma grynhoed yr **Adran Ystadau** o'r gwaith o dan Ddeddf 2007 ar gyfer 2007:

- Liffth allanol newydd ar gyfer adeilad Llandinam, lifft newydd ar gyfer Roboteg ac uwchraddio'r lifft ar gyfer llyfrgell Hugh Owen.
- Llochesau i gadeiriau olwyn ym mhob adeilad academaidd.
- Ymylon i stepiau allanol.
- Uwchraddio'r arwyddion allanol.
- Rampiau i gadeiriau olwyn yn adeilad y Gwyddorau Ffisegol ac adeilad Milford.
- Drysau awtomeiddiedig yng Nghanolfan y Celfyddydau ac ar lefelau A, D ac E yn adeilad Hugh Owen.
- Uwchraddio'r manau parcio i'r anabl.
- Gwaith ymatebol arall.

Ym mis Mehefin 2007 fe ymgynghorwyd â'r Adran Ystadau, y Gwasanaethau Gwybodaeth, Swyddog Anabledd Urdd y Myfyrwyr a'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch ynghylch materion fel Wythnos y Glasfyrwyr, Gadael ar Frys (Cynlluniau Personol i Adael ar Frys) (PEEPs), Liffthiau, Cadeiriau Ymadael, Mannau Llochesu yn Llyfrgell Thomas Parry, y Gyfraith, Canolfan y Celfyddydau, Gyrfaoedd, y Ganolfan Iaith a Dysgu, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, y Ganolfan Chwaraeon, Siop Undeb y Myfyrwyr, y Golchdy a gwaith haf ar adeilad Hugh Owen. Fe ymgynghorir ymhellach ym mis Mehefin 2008.

Y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr sy'n dal i gydlynu'r Cynlluniau Personol i Adael ar Frys yn achos y myfyrwyr a'r Adran Adnoddau Dynol yn achos y staff.

Dyma adroddiad **Rheolwr Mynediad Anabledd a Thrwyddedu Meddalwedd yn y Gwasanaethau Gwybodaeth:**

- Mae cellan newydd i Gerdyn Gwyrdd wedi'i hadeiladu yn Llyfrgell y Gyfraith yn adeilad Hugh Owen. Mae ynddi ddesg addasadwy a mynediad i'r rhwydwaith ac mae iddi fynediad gwastad o'r tu allan (ar Lefel E).
- Hefyd yn 2007, fe osodwyd cyswllt sain/fideo newydd ar Lefel E i ddarparu mynediad i ddefnyddwyr ag anawsterau symudedd. Bydd cloch yn canu ar y Ddesg

Fenthyciadau a bydd monitor sy'n gwylio'r drws awtomatig yn fodd i'r staff roi teclyn ar waith i agor y drws o bell a hwyluso mynediad yr unigolyn. Bydd y broses yn gweithio yn yr un ffordd pan fydd unigolyn yn dymuno ymadael.

- Ar Lefel E mae toiled newydd gael ei adeiladu ar gyfer defnyddwyr anabl; mae i'r cyfan fynediad gwastad i'r tu allan drwy'r system newydd sy'n agor y drws. Mae lifft newydd, sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, hefyd wedi'i osod ac yn darparu mynediad i'r lloriau a'r man lle mae'r toiled newydd.

Crynodeb

Er bod amrywiaeth o waith wedi'i wneud yn 2007, mae angen adroddiadau mwy cynhwysfawr ar adrannau eraill – ynghyd â mecanweithiau monitro ac Arolygon o Fynediad – er mwyn cyflawni'r gweithredoedd sy'n ofynnol o dan y Cynllun Gweithredu.

b) Eitem 2 – Tasgau 3a-h y Cynllun Gweithredu

Cyfathrebu: (sut y byddwn ni'n cyfathrebu â'n staff, â'n myfyrwyr ac â defnyddwyr eraill ein gwasanaethau, a'r rheidrwydd i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch)

Mae'r CCA a'r Cynllun Gweithredu ar gael ar wefan Adnoddau Dynol ond heb ei gyhoeddi eto ar y Wefan Cymorth i Fyfrwyr sy'n cael ei diweddarau ar hyn o bryd. Mae ef ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch drwy wneud cais (ni chafwyd yr un cais amdano yn 2007). Hwrwyddwyd y Cynllun i gychwyn drwy'r e-bost wythnosol i'r staff a'r myfyrwyr yn gynnar ym mis Chwefror 2007 a thrwy gyfrwng amrywiol gyflwyniadau a sesiynau hyfforddi ynghylch cydraddoldeb.

Y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr: Argymhelliad allweddol yr arolwg a wnaed yn 2006 o'r Gwasanaeth Cymorth i Fyfrwyr oedd sefydlu sector integredig a fyddai'n hoelio'i sylw ar y myfyrwyr, a gwella'r cyfathrebu â'r adrannau academaidd a'r defnyddwyr.

Dechreuwyd gweithredu ar hynny yn 2007. Yr oedd yn cynnwys recriwtio Cyfarwyddwr newydd, a dau Gyfarwyddwr Cynorthwyol.

Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cymorth Dysgu) sy'n gyfrifol am ddod â sgiliau dysgu ac iaith yn nes at y boblogaeth o fyfrwyr a chynyddu effeithiolrwydd y cyfathrebu a'r cymorth a ddarperir yn yr adrannau academaidd.

Disgwylir i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Lles a Chadw) wella'r cyfraddau cadw staff a myfyrwyr drwy sicrhau bod cydlynu agosach ar yr amrywiol elfennau cymorth ledled y Brifysgol a thu hwnt.

Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr wedi cychwyn ar raglen fawr i ddatblygu eu staff er mwyn cryfhau'r enw da sydd ganddynt am gynnig gwasanaethau cyfeillgar a hygyrch ac i gynyddu eu cymhwysedd o ran cyfathrebu ac o ran cadw staff a myfyrwyr. Cynhaliwyd ymarfer brandio a phennu delwedd, ochr yn ochr â hunaniaeth gorfforaethol newydd y Brifysgol, ac ar y cyd â'r defnyddwyr ac Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r sector wrthi'n adolygu strwythur ei bwyllgorau i sicrhau ei fod yn addas wrth gynrychioli ac wrth wneud penderfyniadau cadarn ac effeithiol. Mae ymagwedd gyd-reoli wedi'i sicrhau rhwng y staff ac Undeb y Myfyrwyr.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr wedi cynnal cyfarfodydd â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (GDSYA) i hwyluso ymagwedd fwy cydlynol at faterion anabledd ymhlith y staff a'r myfirwyr. Cafwyd sesiynau briffio hefyd i drafod anghenion dysgu a materion cadw staff a myfirwyr. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn cefnogi menter gan GDSYA i sefydlu cyfarfodydd o-amgylch-y-bwrdd ynghylch anabledd.

c) Eitem 3 – Tasgau 7a-b y Cynllun Gweithredu

Hyfforddiant: (yr angen i ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth sydd wedi'u targedu'n briodol at ein holl staff er mwyn i ni allu sicrhau bod ein staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r CCA yn llawn)

Y mae'r GDSYA wrthi'n ystyried darparu ymwybyddiaeth o anabledd yn fwy effeithiol drwy sefydlu trafodaethau o-amgylch-y-bwrdd, digwyddiadau a sesiynau galw-heibio er mwyn ymgynghori, cynorthwyo a hyfforddi ynghylch amrywiol themâu anabledd. Mae GDSYA hefyd wedi darparu 2 sesiwn pwrpasol ynghylch anabledd i drafod anghenion pobl anabl, rhannu adnoddau, cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth, a dadansoddi anghenion.

Mae'r cwrs e-ddysgu ar amrywiaeth sy'n cael ei ddarparu gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb i'r holl staff yn cynnwys modiwl penodol ar anabledd. Ynndo, fe amlinellir y diffiniad o anabledd, y Ddyletswydd ynghylch Cydraddoldeb Anabledd, ac addasiadau rhesymol. Mae'r cwrs hefyd yn cysylltu â chynnwys yr CCA a'r Cynllun Gweithredu.

d) Eitem 4 – Tasgau 6a-d y Cynllun Gweithredu

Darparu gwasanaethau: (gan gynnwys defnyddio technoleg yn effeithiol, a hwyluso mynediad pawb i'r gwasanaethau, drwy fabwysiadu dull y 'siop un-stop')

Fel rhan o strwythur newydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr, caiff canolfan newydd, y Ganolfan Cymorth i Fyfirwyr, ei sefydlu ar y prif Gampws ym mis Rhagfyr 2008. Bydd hynny'n helpu'r ymagwedd 'un-stop' gan y bydd y ganolfan yn cynnwys y prif agweddau ar y gwasanaeth, gan gynnwys Desg Ymholiadau/Derbyn, Ymgynghorydd Lles, cyswllt Cymorth Dysgu, Cyllid Myfirwyr, a Swyddog Anabledd. Bydd yn cysylltu'n agos â'r staff Iaith ac Addysgu ac â Chanolfan Iechyd y Myfirwyr – canolfan sydd i fod i adleoli i'r prif gampws yn 2008. Caiff y Ganolfan Cymorth i Fyfirwyr ei lansio ym mis Rhagfyr i ganolbwyntio ar hyrwyddo'r cysylltiadau â defnyddwyr o fyfirwyr.

Mae'r Swyddog Anabledd yn cynnig y gwasanaethau hyn:

- rhoi offer megis peiriannau recordio neu gymorth clyw radio ar fenthyg os bydd offer wedi torri;
- trefnu i uwchraddedigion a staff hyfforddedig gymryd nodiadau;
- gweinyddu'r Lwfans Myfyriwr Anabl er mwyn cyflogi Lladmeryddion Saesneg/B.S.L., staff cymorth ac unigolion i gymryd nodiadau;
- darparu cymorth dysgu ac astudio;
- cynghori ynghylch trefniadau arholi arbennig;
- cysylltu â meddygon teulu neu Ymgynghorwyr;
- trefnu llety sydd wedi'i addasu;
- trefnu mynediad i Fannau Cerdyn Gwyrdd, sy'n cynnwys meddalwedd a chaledwedd arbenigol i ateb anghenion yr unigolyn;
- cynghori ynghylch technoleg addasol;

- rhoi gwybod am unrhyw feddalwedd ac offer arbenigol newydd;
- darparu trawsgrifiadau Braille neu Sain, a gwasanaeth diagramau cyffyrddol.

Ym mis Medi 2008, bydd y Cymorth Anabledau'n integreiddio'n llawnach i'r cymorth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau cydlynu agosach ar y cymorth meddygol, seicolegol ac ariannol. Bwriedir sicrhau ymagwedd sy'n hoelio sylw mwy di-dor ar y myfyriwr, gan gynnwys gwell cyfathrebu â'r adrannau academaidd a'r gwasanaethau eraill i ddysgwyr. Mae Cymorth i Fyfirwyr yn dal i gynghori myfyrwyr ynglŷn â'r Lwfans Myfyrwyr Anabl ac asesiadau o anghenion dramor.

e) Eitem 5 – Tasgau 5a-h y Cynllun Gweithredu

Recriwtio a chadw (pobl anabl, yn fyfyrwyr ac yn aelodau o'r staff, a'u helpu i gyflawni hyd eithaf eu gallu);

Recriwtio a chadw myfyrwyr: O ran eitem 5d yn y Cynllun Gweithredu (Adolygu'r deunydd canllaw ynghylch creu mynediad hygyrch i ddysgu ac addysgu), fe gychwynwyd ymarfer peilot o'r enw Teachability yn 2007. Dan arweiniad Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr, ei nod yw hyrwyddo creu Cwricwlwm Hygyrch i fyfyrwyr ag anabledau.

Mae'r peilot yn ceisio adnabod profiadau cydnabyddedig myfyrwyr anabl sy'n ceisio cyrchu cyrsiau astudio, a phrofiadau staff academaidd o ddyfeisio ffyrdd arloesol o hwyluso'r mynediad hwnnw. Gan mai'r nod yw cydnabod y manteision posibl i'r holl fyfyrwyr, bydd hynny'n hwb cryfach i'r broses o ystyried y newidiadau y bydd angen eu rhoi ar waith, yn hytrach na chanolbwyntio ar y dyletswyddau y mae gofyn eu cyflawni er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Hyd yn hyn, pedair adran academaidd (yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg a'r Sefydliad Gwyddorau Gwledig) sydd wedi ymwneud â'r peilot. Maent wedi dod i weithdy o'r enw 'Teachability: Delivering an inclusive curriculum made easy', wedi cyfarfod ag ymgynghorydd i adolygu effaith ac anghenion eu cwricwlwm, ac wedi datblygu eu cynlluniau gweithredu eu hunain. Disgwylir cynnal cyflwyniad ym mis Gorffennaf 2008 i rannu a lledaenu profiadau Teachability a'i effaith ar y Cwricwlwm Dysgu ac Addysgu i adrannau eraill. Ceir adroddiadau pellach ar y canlyniadau yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar Anabled.

Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr wrthi'n adolygu sut y maent yn hyrwyddo'u cyfleusterau a'u gwasanaethau newydd i bobl anabl – wrth hyrwyddo Canolfan 'un-stop' ac yng nghyhoeddiadau'r Brifysgol, e.e. y Prosbectws. Bwriadant hefyd ledaenu gwybodaeth drwy'r gwasanaeth e-bost wythnosol i staff a myfyrwyr y Brifysgol, gan ymgynghori â defnyddwyr y Ganolfan newydd ac ailwampio strwythur y pwyllgorau Cymorth i Fyfirwyr er mwyn cyfoethogi profiad y myfyrwyr.

Bydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr yn gwahodd pobl anabl yn rheolaidd i helpu gyda Diwrnodau Agored a gweithgareddau eraill. Yn ystod y Diwrnodau Agored hynny, bydd gan y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr ddesg sy'n cynnig cymorth ynghylch anabledd ac iechyd, a bydd yn ariannu myfyriwr anabledd i helpu'r diwrnod. Bwriad y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr yw gwella'r gweithgareddau i rieni myfyrwyr ag anabledau.

Mae'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr yn dal i geisio sicrhau cyflawni'r ddarpariaeth a argymhellir ar gyfer pob myfyriwr unigol.

Recriwtio a chadw staff: Ym mis Tachwedd 2007, llwyddodd yr Adran Adnoddau Dynol i sicrhau ail-achredu eu Tic Dwbl 'yn Gadarn o blaid Pobl Anabl'. Mae'r achredu hwnnw'n golygu y caiff unrhyw ymgeisydd anabl sy'n gwneud cais am swydd ac yn bodloni'r meini prawf hanfodol gyfweiliad gan y Brifysgol hon. Rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yw cysylltu ag aelodau o'r staff sydd ag anableddau i adolygu unrhyw ddatblygiad a/neu fater addasu rhesymol.

Nid yw'r canllawiau ynghylch gwneud 'addasiadau rhesymol' wedi'u llunio eto, ond mae'r Adran Adnoddau Dynol yn dal i weinyddu'r cynllun Mynediad i Waith sy'n cynnig grantiau, cymorth a chynghor i bobl anabl ac i gyflogwyr. Cafodd sawl aelod o'r staff gymorth gan y cynllun yn 2007.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol hefyd wedi llunio ffurflenni ymgeisio a monitro newydd sy'n diweddarau'r diffiniad o anabledd, yn helpu gyda cheisiadau am y Tic Dwbl, yn gofyn am addasiadau rhesymol ac yn diweddarau'r categorïau o anabledd i fodloni gofynion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

f) Eitem 6 – Tasg 11a y Cynllun Gweithredu

Cyfranogi democrataidd: (gan gynnwys annog a helpu pobl anabl i gymryd rhan yng ngweithgareddau a phrosesau'r Brifysgol).

Nod Prifysgol Aberystwyth yw sicrhau ymagwedd gynhwysol at ymgynghori ynglŷn â'i gweithgareddau a'i phrosesau ac mae hi wrthi, drwy gyfrwng gwybodaeth ac amrywiaeth o sesiynau hyfforddi, yn gweithio i hyrwyddo'r ddyletswydd gadarnhaol.

Fel y dywedwyd eisoes, cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch hygyrchedd ym mis Mehefin 2007, a nod y GDSYA yw ceisio trefnu cyfarfod 'ford gron' i bobl ag anableddau. Dylai ymgynghoriadau o'r fath fod yn gyfle i annog pobl ag anableddau i gyflawni rôl ehangach ym mhrosesau a gweithgareddau'r Brifysgol.

x) Gweithgareddau eraill:

Y prif weithgarwch arall a gynhaliwyd yn 2007 oedd proses sgrinio i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (Eitem 10 yn y Cynllun Gweithredu). Hyd yn hyn, mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi casglu ac wedi sgrinio dros 300 o bolisiau, gan gynnwys elfen o asesu, h.y. cwestiwn ynghylch gwahanol anghenion mewn perthynas â'r polisi a sgriniwyd.

xi) Fel y dangosir yn Atodiad A, mae Cynllun Gweithredu'r CCA yn cynnwys diweddariad yn yr adrannau "Sylwadau / Camau Pellach" a "Cwblhawyd" i ddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun.

Crynodeb: Mae arolwg wedi'i wneud o feysydd allweddol yr CCA a gweithredu'r tasgau yng Nghynllun Gweithredu'r CCA. Mae Cynllun Gweithredu'r CCA wedi'i ddiweddarau i ddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun.

3. Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd

xii) Cysylltiadau Pellach ynghylch Cymorth Anabledd:

Mae'r Ganolfan Datblygu Academaidd (y Swyddfa Datblygu Staff gynt) yn cynnig cymorth pellach ar ei gwefan ynghylch cynllunio dysgu cynhwysol, ac yn cynnwys arweiniad gan:

[Techdis](#) sy'n helpu'r sector addysg i sicrhau rhagor o hygyrchedd a chynhwysiant drwy ysgogi datblygiadau arloesol a chynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ynghylch anabledd a thechnoleg.

[SWANDS](#) sy'n cynnig arweiniad ynghylch ymdrin â derbyn myfyrwyr, addysgu, dysgu ac asesu.

[RNID](#) ar gyfer strategaethau addysgu i'w defnyddio gyda myfyrwyr byddar.

Cynigir cymorth hefyd gan y [Ganolfan Iaith a Dysgu](#).

xiii) **Y Ganolfan Iaith a Dysgu:**

Bydd y Ganolfan Iaith a Dysgu yn ceisio hybu cydraddoldeb drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, a'i nod yw galluogi myfyrwyr i gyflawni eu holl botensial mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r Cwricwlwm Dysgu Academaidd/Gwasanaeth Dyslecsia (ALCADS) yn cynnig cyngor a hyforddiant arbenigol a chymorth i fyfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu/cyfathrebu gwaelodol, gan gynnwys dyslecsia, ac sydd felly o bosibl o dan anfantais pe defnyddir dulliau mwy traddodiadol o ddysgu ac addysgu.

Gellir trefnu asesiad cychwynol (gan gynnwys adroddiadau gan Seicolegydd Addysgiadol ac Athrawon Arbenigol) os oes angen. Mae ALCADS yn cynnig gwasanaethau Canolfannau Asesu'r Rhwydwaith Cenedlaethol ac yn darparu Asesiadau o Anghenion Astudio arbennig yn rhan o broses PA o geisio'i gwneud yn haws i fanteisio ar Lwfansau Myfyrwyr Anabl. Mae rhaglenni datblygu strategaethau dysgu unigol ar gael i fyfyrwyr a gellir ychwanegu at y rhain amrywiaeth o sefyllfaoedd lle mae sesiynau yn rhoi ystyriaeth i arddulliau deallusol unigol ac yn ystyried yr her sydd ymhlŷg yn yr amgylchedd AU, gyda'r nod i gynyddu effeithiolrwydd myfyrwyr wrth asesu'r heriau a chyflawni eu haddewid unigol.

xiv) **Digwyddiadau Rhwydweithio:**

Bu'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac aelodau eraill o'r staff mewn dau gyfarfod allanol o Grŵp Darparu Gwasanaeth Cydradd Ceredigion yn 2007. Trefnwyd y ddau gyfarfod gan Heddlu Dyfed-Powys a chafwyd cyfle ynddynt i drafod unrhyw broblem anabledd i ymwelwyr, staff a myfyrwyr.

Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Cyswllt Cymru yr Uned Herio Cydraddoldeb. Mynychir y cyfarfodydd hynny gan gynrychiolwyr holl Brifysgolion Cymru a CCAUC, ac ynddynt fe drafodir cydraddoldeb anabledd a rhannu arferion da.

Cyflwynodd y Swyddog Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr adroddiadau ar y gweithgareddau diweddar hyn:

- Cyfarfod â GDSYA i drafod darparu 'Caffe Hygyrchedd'
- Cyfarfodydd â Swyddog Hygyrchedd Anabledd y Gwasanaethau Gwybodaeth ynglŷn â darparu gwasanaethau cyhoeddus
- Cysylltu â'r Adran Ystadau a myfyrwyr ynghylch materion hygyrchedd
- Cyfarfod blynyddol ag Unedau Trawsgrifio y DU
- Cyfarfodydd staff ynghylch adolygu'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, ac ag ALCADS.

Cafwyd yr adroddiadau canlynol gan Swyddog Amrywiaeth a Datblygu Urdd y Myfyrwyr:

Mae'r Urdd wedi cynnal Noson Ymwybyddiaeth o Anableddau lle cafwyd sawl cyflwyniad, e.e. Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau yr Urdd ar fywyd fel myfyriwr anabl, Swyddog y Cymdeithasau ar dyslecsia a chafwyd sgwrs gan fyfyriwr sy'n dioddef o barlys yr ymennydd (cerebral palsy) am fyw gydag anabledd o'r fath. Daeth nifer dda o fyfyrwyr i'r achlysur hwn a gynhaliwyd i godi ymwybyddiaeth.

Rhoddodd Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau yr Urdd hefyd sgwrs ar Dyslecsia a bu ALCADS yn dosbarthu gwybodaeth ac yn sôn am y gwahanol fathau o dyslecsia. Cynhaliwyd hwn yn allanol (yn yr Orendy) a darparwyd te a bisgedi am ddim. Daeth llawer i'r achlysur hwn hefyd ac fe gafwyd adborth da gan y myfyrwyr.

Mae'r Undeb yn dal i fod yn un o'r adeiladau hawsaf i fynd i mewn iddo ar y Campws ac mae Urdd y Myfyrwyr yn gweithio'n gyson i wella hyn.

Crynodeb: Nod y Brifysgol yw hybu ac ymgorffori cydraddoldeb anabledd drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau hyfforddi, cyfeirio, cynorthwyo a rhwydweithio.

4. Monitro Anabledd

xv) Monitro'r Staff:

Pan gofnodwyd yn 2004 y staff a oedd ag anableddau, fe welwyd ar gronfa ddata Adnoddau Dynol mai 4 yn unig o aelodau'r staff a oedd wedi datgan bod ganddynt anabledd. Ers hynny, ac yn sgil casglu data ar gyfer monitro cydraddoldebau, ar gyfer yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac er mwyn glanhau'r data a'u diweddarau'n fwy cyson, mae'r ffigur (fel y'i cofnodwyd ym mis Ionawr 2008) wedi codi fel a ganlyn:

- xvi) O'r cyfanswm o 2013 o staff Prifysgol Aberystwyth, mae 52 ohonynt (30 o wrywod a 22 o fenywod) wedi'u cofnodi ar hyn o bryd yn unigolion ag anableddau. Hynny yw, 2.73% o'r staff. Mae 33 (63%) ohonynt yn amser-llawn a 19 (37%) yn rhan-amser. Y Gwasanaethau Tŷ a'r Gwasanaethau Preswyl a Lletygarwch sy'n cyflogi'r nifer fwyaf o staff ag anabledd, sef cyfanswm o 12 (23%). Cofnodwyd saith categori o anabledd (Dall/Nam Gweledol, Byddar/Nam ar y Clyw, Hirhoedlog, Nam ar Symudedd Corfforol, Dysgu Penodol, Anableddau Lluosog a Math Arall o Anabledd). O'r cyfanswm o 52 o staff, cofnodwyd bod 46 (88.5%) ohonynt yn Brydeinwyr Croenwyn a'r 6 arall yn Gymro Croenwyn/Cymraes Groenwyn (1), Gwyddel Croenwyn/Gwyddeles Groenwyn (1), Anhysbys (1), Gwrthodwyd Rhoi'r Wybodaeth (1) a Chefndir Croenwyn Arall (2).
- xvii) Yn ddiweddar, mae categorïau'r data ar gronfa ddata Adnoddau Dynol wedi'u newid ac yn y cyfamser cyflwynwyd ffurflen newydd, sef ffurflen Recriwtio Ymgeisio a Monitro, i gyd-fynd â gofynion HESA. Bellach, caiff meysydd y data am anabledd eu cofnodi fel hyn:
- Anabledd dysgu penodol (megis dyslecsia neu ddyspracsia)
 - Anabledd dysgu cyffredinol (megis syndrom Down)
 - Nam gwybyddol (megis anhwylder sbectwm awtistig neu un sy'n deillio o anaf i'r pen)
 - Salwch neu gyflwr iechyd hirhoedlog (megis canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi)
 - Cyflwr iechyd meddwl (megis iselder neu sgitsoffrenia)
 - Nam corfforol neu broblemau symudedd (megis anhawster defnyddio'r breichiau, neu ddefnyddio cadair olwyn neu ffyn baglau)
 - Byddar neu â nam difrifol ar y clyw
 - Dall neu â nam difrifol ar y llygaid

- Math arall o anabledd – (i'w enwi).

xviii) **Monitro'r Myfyrwyr:**

Ym mis Chwefror 2008, yr oedd gan Brifysgol Aberystwyth gyfanswm o 10,698 o fyfyrwyr. Cofnodwyd bod gan 976 (9.12%) ohonynt anabledd; mae 379 (3.54%) yn cael Lwfans Cymorth Anabledd a 597 (neu 5.58%) heb fod yn cael unrhyw lwfans anabledd.

xix) Dangosir hynny yn y tabl isod:

Lwfans Anabledd	Categori o Anabledd	Cyfanswm Anabl	IR ALI	IR RhA	IR DB	IR Eraill	UR ALI	UR RhA	UR DB	UR Eraill	DGO
N	01	204	147	2	0	3	15	15	3	0	18
N	02	23	15	1	0	0	0	0	2	0	5
N	03	31	17	0	2	0	0	3	2	0	7
N	04	64	40	1	0	2	3	5	0	0	13
N	05	2	0	0	0		0	0	0		2
N	06	27	15	0	1	0	4	3	1	0	3
N	07	87	39	2	6	0	6	5	19	0	10
N	08	18	2	1	0	0	2	1	1	0	11
N	09	130	104	0	1	0	5	5	1	0	14
N	10	11	10	0	0	0	0	0	1	0	0
Y	01	283	254	1	0	2	10	3	1	0	12
Y	02	6	5	0	1	0	0	0	0		0
Y	03	16	11	0	0	0	2	1	2	0	0
Y	04	15	10	0	0	2	1	1	0	0	1
Y	05	1	1	0	0	0	0	0	0		0
Y	06	3	2	0	0	0	0	1	0	0	0
Y	07	8	6	0	0	0	1	0	0	0	1
Y	08	11	8	1	1	0	0	1	0	0	0
Y	09	28	25	0	0	0	2	0	0	0	1
Y	10	8	7	0	0	0	0	0	1	0	0

Allwedd: N = Nac Ydy, Y = Ydy, IR = Israddedigion, UR = Uwchraddedigion, DGO = Dysgu Gydol Oes
ALI = Amser-Llawn, RhA = Rhan-Amser, DB = Dysgwyr o Bell, Eraill = Eraill

xx) Isod, dangosir cyfanswm y myfyrwyr sydd yn y categorïau uchod (1-10), boed hwy'n cael lwfansau anabledd neu beidio. Mae'r categori o anabledd yn cofnodi'r math o anabledd sydd gan fyfyrwr, ar sail hunanasesiad y myfyrwr fel y nodir yn arweiniad HESA.

01 = Dyslecsia	487
02 = Dall/â golwg rhannol	29
03 = Byddar/â nam ar y clyw	47
04 = Defnyddiwr cadair olwyn/ag anawsterau symudedd	79
05 = Cymorth gofal personol	3
06 = Anawsterau iechyd meddwl	30
07 = Anabledd anweledig, e.e. diabetes, epilepsi, asthma	95
08 = Anableddau lluosog	29
09 = Anabledd sydd heb ei restru uchod	158
10 = Anhwyllder Sbectrwm Awtistig	19

Cyfanswm y Myfyrwyr ag Anableddau = 976

Nodyn: Nid oes ffigurau'n hysbys ar hyn o bryd ar gyfer categorïau HESA o
00 = Dim anabledd hysbys, 98 = Gwybodaeth heb ei Cheisio neu 99 = Anhysbys.

- xxi) O'r 976 o fyfyrwyr y cofnodwyd bod anabledd ganddynt, yr oedd 79% yn fyfyrwyr amser-llawn (h.y. 74% yn IR a 5% yn UR) a 21% yn fyfyrwyr rhan-amser (h.y. 1% yn IR, 5% yn UR, 4% yn DB ac 11% yn Eraill). Roedd 42% yng Nghyfadrann y Celfyddydau, 32% yng Nghyfadrann y Gwyddorau a 26% yng Nghyfadrann y Gwyddorau Cymdeithasol.
- xxii) O'r cyfanswm o fyfyrwyr ag anableddau, cofnodwyd bod gan 50 ohonynt gefndiroedd o leiafrifoedd ethnig, ac yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes yr oedd y nifer fwyaf ohonynt, sef 12 myfyriwr.
- xxiii) O'r 132 o fyfyrwyr a dynnodd yn ôl o'u hastudiaethau, yr oedd 13 ohonynt (neu 10%) yn fyfyrwyr ag anableddau.

xxiv) **Cymaryddion demograffig:**

Yn ôl data Cyfrifiad y DU yn 2001, dywed bron 9.5 miliwn o bobl (18.2 y cant) fod ganddynt salwch tymor-hir, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol neu ar y gwaith y gallent ei wneud. Mae 4.3 miliwn ohonynt o oedran gweithio. Dywed y Cyfrifiad hefyd mai gan Gymru y mae'r gyfran uchaf o bobl â salwch tymor-hir cyfyngus (23.3 y cant) a bod bron i draean o boblogaeth Ceredigion (rhyw 23,000 o boblogaeth o 75,000) wedi'u cofnodi'n rhai â "Salwch tymor-hir cyfyngus" neu'n rhai "Nad yw eu hiechyd cyffredinol yn dda".

- xxv) Mae ystadegau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am 2005/6 yn dangos bod anabledd gan ryw 7700 (neu 5.6%) o'r 138,000 o fyfyrwyr sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru (2.8% ohonynt yn cael y Lwfans Myfyriwr Anabl a 50% heb fod yn cael unrhyw lwfans). Yn y cyd-destun hwn mae ffigur cyfredol Prifysgol Aberystwyth o 9.12% yn ddangosydd cadarnhaol bod y gwasanaeth addysg bellach i fyfyrwyr ag anableddau yn un hygyrch.
- xxvi) Yn achos staff ag anableddau, mae ystadegau CCAUC yn dangos ffigur o 2.5% yn 2005/6 o'i gymharu â ffigur Prifysgol Aberystwyth o 2.73% ar gyfer y cyfnod cyfredol.

Crynodeb: Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymgymryd â monitro'i staff a'i myfyrrwyr.

5. Casgliadau a'r Ymrwymiad i Gydraddoldeb Anabledd

- xxvii) Mae'n dal i weithio tuag at ei hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb anabledd ac at ei dyletswydd o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005.
- xxviii) Mae'n ceisio gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid a sefydliadau allanol i gydweithio a rhannu arferion da o ran materion cydraddoldeb anabledd.
- xxix) Mae'n ceisio darparu ymagwedd fwy cydlynol (rhwng y gwasanaethau i'r staff ac i'r myfyrrwyr) at gydraddoldeb anabledd.
- xxx) Mae'r adolygu a'r ailwampio ar y Cymorth i Fyfyrwyr, ynghyd â recriwtio Cyfarwyddwr newydd a dau Gyfarwyddwr Cynorthwyol newydd, yn ceisio cynyddu'r cymorth dysgu a darparu gwasanaeth mwy integredig a hygyrch.
- xxxi) Mae'r staff yn fwyfwy ymwybodol o gydraddoldeb anabledd ac o'r dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Mae mwy o hyfforddiant wedi'i roi i'r staff

ynghylch cydraddoldeb yn 2007 nag yn y blynyddoedd blaenorol, ac fe gynhwysodd hynny elfen o hyfforddiant anabledd, e.e. yr hyfforddiant a roddwyd i'r Cyngor, yr Uwch-Dîm Rheoli a phaneli cyfweld.

- xxxii) Cafodd staff yr Adran Adnoddau Dynol sesiwn ar gydraddoldeb anabledd gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac maent wrthi'n darparu rhaglen e-ddysgu orfodol a dwyieithog ar amrywiaeth i'r holl staff.
- xxxiii) Mae GDSYA wrthi'n adolygu'r ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o anabledd ac yn ystyried mentrau ar gyfer ymgynghori a rhwydweithio â'r staff.
- xxxiv) Dylid blaenoriaethu'r tasgau isod yn ystod y flwyddyn sydd i ddod:
 - Lledaenu pellach ar yr CCA a'r Cynllun Gweithredu;
 - Rhagor o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth i staff a myfyrwyr;
 - Mentrau ymwybyddiaeth o anabledd i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at bersonau anabl a hybu cyfranogi, e.e. digwyddiadau hyfforddi, mentora a rhwydweithio;
 - Cydweithio â'r Adran Ystadau o ran adrodd a chyfathrebu ynghylch diweddarau'r wybodaeth am hygyrchedd adeiladau Prifysgol Aberystwyth;
 - Rhagor o ymgynghori rhwng y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr ac Adnoddau Dynol ynghylch cydlynu Cynlluniau Personol i Adael ar Frys;
 - Cydweithio pellach, a mecanweithiau, i sicrhau adrodd diymdroi ar gydraddoldeb anabledd;
 - Menter i fesur y gwelliant yn y cymorth anabledd (e.e. holiaduron adborth gan staff a myfyrwyr).

Ymhlith y ffynonellau mewnol o wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth Rheoli, y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, Cymorth Iaith a Dysgu (Cydlynnydd ALCADS), Swyddog Hygyrchedd Anabledd y Gwasanaethau Gwybodaeth, Swyddog Anabledd y Myfyrwyr, Swyddogion Anabledd ac Amrywiaeth Urdd y Myfyrwyr, yr Adran Adnoddau Dynol, yr Adran Ystadau a GDSYA. Mae'r ffynonellau allanol yn cynnwys Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, HESA a CCAUC.

Cysylltwch â Ms Olympia Petrou ar 01970 62 8598 neu opp@aber.ac.uk os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, e.e. Braille, Trawsgrifiadau Sain ac ati.